# CLWB PLANT TRWY'R POST

Pecyn wythnosol 42
18/01/21

## Iesu'n galw'r disgyblion

Stori a gweithgareddau i'w gwneud gartref tra dydyn ni ddim yn gallu cyfarfod.

Paid â phoeni os na wnei di bopeth.
Gwna yr hyn yr wyt yn ei ffansïo a chael hwyl!



**Paratowyd y pecyn hwn gan:**
Andy Hughes - Saint y Gymuned, Susan Williams - Cynllun EFE a Chapel Caersalem, Caernarfon, Nia Williams - Eglwys Bresbyteraidd Cymru, Jennifer Roberts - Eglwys Bresbyteraidd Cymru gyda chymorth, syniadau ac adnoddau gan Mair Roberts, Rachel Hughes, Kathryn Williams, Greg Leavers, Elin Bryn a Gwyn Rhydderch

An English version is also available

**Dalier sylw os gwelwch yn dda. Am resymau hawlfraint dylai'r pecyn hwn gael ei ddosbarthu'n gyflawn ac yn rhad ac am ddim. Nid yw unrhyw adran o'r pecyn i gael ei ddefnyddio ar wahân neu ei gopïo gan unrhyw gyhoeddiad arall heb yn gyntaf gael caniatâd. Cysylltwch ag Ahughes@saintygymuned.org**



# Stori

**Fersiwn Beibl.net**



Un tro roedd Iesu'n cerdded ar lan Llyn Galilea, a gwelodd ddau frawd – Simon, oedd pawb yn ei alw'n Pedr, a'i frawd Andreas. Pysgotwyr oedden nhw, ac roedden nhw wrthi'n taflu rhwyd i'r llyn. Dyma Iesu'n galw arnyn nhw, “Dewch, dilynwch fi, a gwna i chi'n bysgotwyr sy'n dal pobl yn lle pysgod.” Heb oedi, dyma'r ddau yn gollwng eu rhwydi a mynd ar ei ôl.



Wrth gerdded yn ei flaen, gwelodd Iesu ddau frawd arall – Iago ac Ioan, dau fab Sebedeus. Roedden nhw mewn cwch hefo Sebedeus eu tad yn trwsio eu rhwydi. Dyma Iesu'n eu galw nhw hefyd, a dyma nhw'n gadael y cwch a'u tad a dechrau dilyn Iesu.

*Mathew 4:18-22 Beibl.net*

**Fersiwn syml**

Un diwrnod wrth iddo gerdded ar lan môr Galilea gwelodd Iesu ddau frawd yn pysgota, Simon neu Pedr (fel yr oedd yn cael ei enwi) ac Andreas ei frawd. Galwodd Iesu arnyn nhw, “Dewch gyda mi. Dewch i’m helpu gyda fy ngwaith, yn lle pysgota”. Stopiodd Pedr a Andreas bysgota, gadael eu rhwydi a dilyn Iesu. Wrth iddo gerdded yn ei flaen gwelodd Iesu ddau frawd arall. Roedd Iago ac Ioan yn paratoi i fynd allan i bysgota. Dywedodd Iesu wrthynt, “Dewch gyda mi. Dewch i’m helpu gyda fy ngwaith, yn lle pysgota.” Gadawodd Iago ac Ioan eu cwch a dilyn Iesu. Dyma ddisgyblion cyntaf Iesu.



# Cwestiynau i’w trafod



Ar ôl darllen y stori gyda’ch gilydd, fe allech chi drafod y cwestiynau hyn fel teulu:

1. Wyt ti’n dilyn rhywun arbennig ar '*Youtube*' neu wyt ti’n dilyn tîm pêl-droed?
2. Pam a sut wyt ti’n eu dilyn?
3. Pe byddet ti’n Pedr neu’n Andreas, beth fyddet ti wedi ei wneud pe byddai Iesu wedi galw arnat ti i’w ddilyn?
4. Sut wyt ti’n meddwl y gallwn ni ddilyn Iesu heddiw?

# Gweddi fer




O Dduw, rwyt Ti mor wych! Mae popeth amdanat Ti’n dda.
Diolch i Ti dy fod Ti yn fy ngalw i dy ddilyn Di.
Helpa fi i fod yn debyg i Pedr ac Andreas a dy ddilyn Di.
Amen.

# Stori i'w lliwio

## Dewch, dilynwch fi

www.lambsongs.co.nz Gan Jill Kemp (Cyf. Susan Williams) Lluniau: Richard Gunther




Cerddodd Iesu i dref fechan yn ymyl llyn. Enw'r dref oedd Galilea. Roedd cychod pysgota ar y llyn.



Wrth i Iesu gerdded ar hyd y traeth gwelodd ddynion yn gweithio. Roedden nhw wedi bod yn pysgota ac wrthi'n atgyweirio'r rhwydi.



Galwodd Iesu arnynt, "Simon ac Andreas, dewch a dilynwch fi." Gwyddai Iesu eu henwau ac mae'n gwybod dy enw dithau hefyd.



Gollyngodd Simon ac Andreas eu rhwydi a dyna nhw'n dilyn Iesu. Wedi hynny wnaethon nhw fynd i bobman gyda Iesu i'w helpu.




Dywedodd Iesu wrthynt, " Yn lle dal pysgod byddwch yn dweud wrth bobl amdanaf fi. Dyna fydd eich gwaith newydd. Byddwch yn fy helpu i."



Aeth Iesu yn ei flaen ar hyd y traeth. Gwelodd ddau ddyn arall yn pysgota, Iago ac Ioan. Galwodd arnynt, " Dewch, dilynwch fi."



Neidiodd Iago ac Ioan allan o'u cwch a dyna nhw'n dilyn Iesu hefyd. Roedden nhw eisiau bod yn weithwyr iddo.



Mae Iesu eisiau i tithau ei ddilyn a dweud wrth dy ffrindiau cymaint mae o'n eu caru nhw fel y gallant hwythau ei ddilyn hefyd.


# Dolenni



Fideo o'r stori
https://www.youtube.com/watch?v=9YwPIBSfobA&t=11s




Fideo o gân yr wythnos
https://youtu.be/Lzl2xwyjb9Q





Cartŵn o'r stori (Saesneg)
https://www.youtube.com/watch?v=MpUaSilelzc



# Gweddi Greadigol

## Ar lan y môr

Gwna gwch papur ac yna dau berson allan o lanhawyr pibell. Rho un person yn y cwch a'r llall ar y lan. Roedd y ddau frawd, Pedr ac Andreas, yn eu cwch yn pysgota pan alwodd Iesu arnyn nhw,"Dewch, dilynwch fi a gwna i chi'n bysgotwyr sy'n dal pobl yn lle pysgod." Ac heb oedi wnaethon nhw adael eu rhwydi, dringo allan o'r cwch a dilyn Iesu. Fe wnaeth Iago ac Ioan yn union yr un peth. Os hoffet ti ddilyn Iesu a bod yn ffrind iddo tynna'r dyn bach glanhawr pibell allan o'r cwch a'i roi i sefyll yn ymyl Iesu (y person glanhawr pibell ar y lan). Dyweda wrth Iesu dy fod eisiau bod yn ffrind iddo heddiw ac am byth.



## Pysgod Gweddi

Roedd Iesu yn galw'r pedwar pysgotwr yn yr hanes i'w ddilyn a dal pobl yn lle pysgod. Nid eu dal gyda rhwyd, ond eu gwahodd i ddilyn Iesu i fod yn ddisgyblion iddo hefyd!



**Byddi angen:** Stribedi papur 10cm x 2cm, siswrn a phinnau ffelt.


**Beth i'w wneud:**
- Meddylia am rywun rwyt ti eisiau gweddïo drosto iddo ddilyn Iesu ac ysgrifenna ei enw ar ganol y stribed papur.
- Addurna'r papur o gwmpas yr enw. Meddylia am y person wrth i ti addurno.
- Torra ddwy hollt fach ychydig dros hanner ffordd i'r stribed papur rhyw 2cm o bob pen i'r stribed papur (fel yn y llun).
- Plyga'r papur a gosoda'r ddwy hollt yn ei gilydd i greu siâp pysgodyn.
- Dalia'r pysgodyn yn uchel yn yr awyr ac yna gadael iddo fynd. Wrth iddo ddisgyn bydd yn troelli!



# Posau

## Beth sy’n cuddio?

Fedri di gysylltu'r dotiau
er mwyn gwblhau'r llun?





| | | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| N | R | F | D | O | E | R | W | R | CH |
| I | | | | | | | | | G |
| E | | | | | | | | | D |
| F | | | | | | | | | I |
| FF | | | | | | | | | I |
| CH | B | W | A | N | U | Y | LL | L | H |

Rydym wedi cuddio ymadrodd yn y grid. I ddod o hyd iddo, bydd yn rhaid i ti ddewis y llythyren gywir i ddechrau ac yna darllen bob yn ail lythyren gan fynd i gyfeiriad clocwedd.
Ysgrifenna'r ymadrodd isod.

______________________________

Fedri di roi geiriau’r adnod yn y drefn gywir er mwyn dod o hyd i’r adnod?



# Crefft

## Pobl Peg




**I wneud y bobl peg byddi angen:**

Pegiau, gwlân, glanhawyr pibell, siswrn, glud PVA, brws, pinnau ffelt coch a du.





**1.** Plyga lanhawr pibell a'i dorri'n hanner.



**2.** Plyga'r glanhawr pibell yn ei hanner unwaith eto a'i gordeddu.



**3.** Cychwynna drwy lapio'r gwlân o gwmpas un goes.



**4.** Gorchuddia un goes ac yna gorchuddia'r goes arall â'r gwlân.



**5.** Dal ati i lapio'r gwlân hyd nes y bydd hanner gwaelod y peg wedi ei orchuddio.Torra'r gwlân a'i glymu.



**6.** Dewisa wlân gwahanol liw a chychwynna ei lapio o gwmpas y peg.



**7.**Gosoda'r glanhawr pibell fel y gweli di yn y llun a lapia'r gwlân amdano i'w gadw'n ei le.



**8.** Lapia'r gwlân am un o'r breichiau ac yna lapia'r fraich arall.



**9.** Dal ati i lapio'r gwlân. Cofia adael digon o le ar dop y peg i wneud wyneb. Torra'r gwlân a'i glymu.



**10.** Gwna lun wyneb ar flaen y peg.



**11.** I wneud y gwallt torra'r gwlân yn ddarnau bach.



**12.** Gorchuddia'r pen â glud PVA, a'i orchuddio â'r tameidiau bychan o wlân.



Gwna beg o Iesu. Beth am ei orchuddio â gwlân gwyn?





**Beth am i ti wneud pegiau o Iesu a'i 12 disgybl?**

Defnyddia dy bobl peg wrth i ti adrodd yr hanesion amrywiol am sut y galwodd Iesu ei 12 disgybl.

# Chwilair


| | | | | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| D | O | G | S | Y | P | LL | S | I | M | O | N |
| E | D | G | U | W | Y | I | A | CH | A | CH | W |
| CH | R | B | A | N | D | R | E | A | S | W | NG |
| R | E | N | E | I | D | E | DD | R | E | C | W |
| A | D | I | L | Y | N | D | Y | I | B | G | LL |
| U | E | A | I | D | I | W | G | H | E | T | O |
| B | O | B | L | W | T | L | E | A | D | A | G |
| LL | R | N | A | O | I | E | R | U | E | F | S |
| W | L | A | G | W | E | L | O | DD | U | L | T |
| O | I | S | W | R | T | S | I | E | S | U | A |
| A | Y | N | C | D | E | W | CH | T | A | I | D |
| P | O | B | L | DD | H | A | D | Y | W | RH | E |

ANDREAS
BRAWD
CERDDED
CWCH
DAL
DECHRAU
DEWCH
DILYN
GADAEL
GALILEA
GALW
GOLLWNG
GWELODD
IAGO
IESU
IOAN
LLYN
POBL
PYSGOD
PYSGOTWYR
RHWYD
SEBEDEUS
SIMON
TAD
TAFLU
TRWSIO

# Sialensau

## Sialens Lego

Gwna fodel o'r stori gan ddefnyddio Lego.



## Sialens y Beibl



Beth am i ti ddarllen un stori o'r Beibl bob dydd am wythnos, neu beth am fynd i chwarae ar App Arwyr Ancora (ar gael am ddim - https://arwyrancora.com/ ) a darganfod mwy o storïau o'r Beibl?



Galwodd Iesu'r pysgotwyr i ddweud wrth eraill amdano, a'u gwahodd i'w ddilyn hefyd.

Fedri di feddwl am ffrind y gallet ti ei wahodd i fod yn rhan o'ch grŵp Zoom neu i ddechrau derbyn 'Clwb plant trwy'r post' bob wythnos? Beth am geisio gwahodd ffrind yr wythnos hon?






# Gemau

## Pysgotwyr dynion

**Byddi angen:**

- Gwiail pysgota wedi eu gwneud allan o briciau neu ffyn bach, tamaid o linyn a magnet. (Fe allet ti ddefnyddio magnet oergell.)
- Pysgod wedi eu gwneud allan o bapur neu gerdyn a chlip papur yn sownd ymhob un ohonynt.
- Pobl wedi eu gwneud allan o bapur neu gerdyn.
- Ysgrifenna eiriau o'r adnod i'w dysgu ar y pysgod a'r bobl. Adnod i'w dysgu:
  Dyma Iesu'n galw arnyn nhw, "Dewch, dilynwch fi, a gwna i chi'n bysgotwyr sy'n dal pobl yn lle pysgod." Mathew 4.19.



**Sut i Chwarae**

- Dos ati i bysgota am y bobl a'r pysgod ac yna rho'r geiriau yn y drefn gywir er mwyn gwneud yr adnod.
- Fe allet ti fynd am yn ail â pherson arall ac amseru'ch gilydd er mwyn gweld pwy fydd gyflymaf neu fe allech chi wneud y dasg gyda'ch gilydd.
- Ar ôl rhoi'r geiriau yn y drefn gywir ceisia ddysgu'r adnod. Darllena'r adnod yn uchel yna tynna un gair oddi yno ac adrodd yr adnod eto. Gwna hyn nes bydd dim un o'r geiriau ar ôl.



## Gêm dal pobl

Faint o bobl fedri di eu dal?

**Byddi angen:**

- Cylch – 'hula hoop' neu ddau 'nŵdl' nofio wedi eu tapio yn ei gilydd i greu cylch.
- Digon o le i chwarae – tu allan fyddai orau!

**Sut i chwarae:**

- Mae un chwaraewr yn ceisio taflu'r cylch dros chwaraewyr eraill.
- Os am wneud y gêm yn anoddach, mae'r chwaraewyr yn cael symud o gwmpas!
- Sgorio: faint o bobl mae'r lluchiwr yn eu dal mewn 5 tro, neu faint mewn 2 funud.

# Canu

Mae Iesu'n dweud, "Tyrd dilyn fi
ac ymddiried a gweli di
mai trwy fy nerth y byddi'n rhydd.
Tyrd dilyn fi."
"Dilyn fi," mae Iesu'n dweud
"â'th galon, meddwl a'th holl nerth.
Mi fyddaf gyda thi bob dydd.
Tyrd dilyn fi."



1. Mae Iesu eisiau bod yn achubwr i ni.
Mae Iesu eisiau bod yn iachawr i ni.
Mae Iesu eisiau bod yn ffrind byth bythoedd.
Ein brenin ni am byth.

2. Mae eisiau i ni oll, i ni oll ei 'nabod.
Mae eisiau i ni oll, i ni oll ei garu.
Bu farw am ein bod yn werthfawr iddo.
Mae'n ein caru ni.

*Greg Leavers Cyf. Cass Meurig*
*Hawlfraint 2017*

Gwyliwch y gân hon a chydganu drwy glicio ar https://youtu.be/Lzl2xwyjb9Q

Os hoffech chi gerddoriaeth (hen nodiant) cysylltwch ag Andy Hughes - ahughes@saintygymuned.org